**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 17 Rhagfyr 2024. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar 11 Mawrth ac LCM Atodol ar 23 Mai 2025.

3. Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Mehefin 2025 ac fe ddaeth i ben ar 3 Gorffennaf 2025. Mae'r holl gyfeiriadau yn yr LCM atodol hwn at ddarpariaethau yn y Bil yn gyfeiriadau at y darpariaethau hynny yn y fersiwn ohono fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, y mae copi ohono i'w weld yn: Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) [Tŷ'r Arglwyddi].

## Gwelliannau

4. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 27 o welliannau ar 18 a 24 Mehefin (busservices_rm_pbc_0618.pdf a busservices_day_pbc_0624.pdf yn y drefn honno) i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Cytunwyd i'r  mwyafrif o'r gwelliannau hyn. Ni chytunwyd i unrhyw un o'r gwelliannau a gyflwynwyd nad ydynt yn welliannau'r llywodraeth .

5. Mae rhai o'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud yn gwneud darpariaeth nad yw'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Er hynny, mae gwelliannau 4,5,11,13,15,17-22,76, 77 a NC4 Llywodraeth y DU yn rhoi sylw i faterion, fel y manylir isod.

## Amcanion Polisi

6. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu gwasanaethau bysiau gwell drwy rymuso arweinwyr lleol yn Lloegr i ddewis y model gweithredu bysiau sy'n gweithio i'w hardal leol a darparu pwerau i ategu'r modelau hynny'n effeithiol. Y nod yw helpu i wella gwasanaethau bysiau a chynyddu'r defnydd ohonynt, wrth i deithwyr elwa ar rwydwaith mwy dibynadwy sy'n darparu'r cysylltiadau sydd eu hangen ar bobl ledled y wlad.

7. Y bwriad yw rhoi mwy o reolaeth a hyblygrwydd i arweinwyr lleol yn Lloegr dros gyllid bysiau a rhoi'r rhyddid iddynt wneud penderfyniadau i gyflawni eu blaenoriaethau o ran trafnidiaeth leol drwy'r canlynol:

   a. Grymuso awdurdodau trafnidiaeth lleol a diwygio cyllid.
   b. Caniatáu i bob cymuned ad-ennill rheolaeth dros eu bysiau.
   c. Cyflymu'r broses masnachfreinio bysiau.
   d. Sicrhau bod darparu gwasanaethau lleol sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol yn cael ei ystyried yn briodol.
   e. Cefnogi perchnogaeth gyhoeddus.

**Crynodeb o'r Bil**

8. Noddir Bil y DU gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT).

9. Mae Bil y DU yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Masnachfreinio – mae Bil y DU yn galluogi pob awdurdod trafnidiaeth lleol i fasnachfreinio ei wasanaethau bysiau heb fod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

- Gwasanaeth lleol sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol – nod y mesur hwn yw hyrwyddo ffordd ehangach o feddwl o ran rheoli rhwydwaith lleol, gan gynnwys sut mae gwasanaethau bysiau yn cael eu cynnal.

- Partneriaethau Gwell – bydd Bil y DU yn cryfhau'r dull partneriaeth rhwng awdurdodau trafnidiaeth lleol a gweithredwyr bysiau.

- Cwmnïau bysiau sy'n eiddo i awdurdodau lleol - bydd Bil y DU yn diddymu'r gwaharddiad ar sefydlu cwmnïau bysiau newydd gan awdurdodau lleol.

- Grantiau – bydd Bil y DU yn rhoi pŵer i awdurdodau trafnidiaeth lleol wneud grantiau i weithredwyr gwasanaethau bysiau yn eu hardaloedd.

- Gwybodaeth am wasanaethau lleol (cofrestru bysiau) - bydd darpariaethau ar gofrestru bysiau yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau trafnidiaeth lleol mewn ardaloedd Partneriaethau Gwell sydd â swyddogaeth gofrestru ddirprwyedig, ac awdurdodau masnachfreinio, i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau bysiau i leoliad cyffredin ac yn ôl safon data a ddiffinnir mewn is-ddeddfwriaeth.

- Gorfodi – mae Bil y DU yn cynnwys mesurau i wella diogelwch ar fysiau drwy roi mwy o bwerau i awdurdodau trafnidiaeth lleol gyflwyno is-ddeddfau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a helpu i wella diogelwch ar fysiau. Mae'r Bil hefyd yn diwygio adran 24 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 i roi pwerau ychwanegol i awdurdodau trafnidiaeth lleol orfodi gofynion o ran prisiau siwrneiau.

- Diogelwch a hygyrchedd mannau stopio – mae Bil y DU yn cynnwys y mesur i ddatblygu canllawiau statudol ar gynhwysiant safleoedd a gorsafoedd bysiau a chyfleusterau.

- Diogelu ar gyfer gwasanaethau ysgol - mae Bil y DU yn cynnwys mesur i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus wirio tystysgrif cofnod troseddol manwl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r gyrrwr ar y rhestr wahardd ar gyfer plant, i yrwyr sy'n cynnal gwasanaethau cludiant ysgol caeedig ("closed") yn aml neu fwy na 3 gwaith mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod

- Hyfforddiant staff – mae Bil y DU yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn orfodol i hyfforddi gyrwyr bysiau ac eraill ar fynd i'r afael â throsedd (y bwriada Llywodraeth y DU y bydd yn cynnwys troseddau yn erbyn menywod a merched) ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o anabledd a chymorth anabledd.

- Bysiau di-allyriadau (ZEBs) – bydd y mesur hwn yn cyflymu'r broses o gyflwyno bysiau di-allyriadau drwy gyflwyno cyfyngiad ar ddefnyddio bysiau newydd nad ydynt yn ddi-allyriadau ar wasanaethau bysiau lleol cofrestredig. Ni fydd y cyfyngiad yn gallu cymryd effaith cyn 1 Ionawr 2030.

10. Rwyf o'r farn y bydd y darpariaethau ym Mil y DU a'n Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ein hunain (fel y'i drafftiwyd) yn gweithio i ddarparu gwell trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Bydd y gwelliannau a nodwyd yn yr SLCM hwn yn sicrhau bod gwasanaethau trawsffiniol yn cael eu darparu mewn ffordd fwy cydlynol ac, er nad ydynt yn mynd mor bell ag y byddem yn ei ystyried yn briodol mewn perthynas â hyfforddiant anabledd i yrwyr bysiau (cymalau 35 a 36 o Fil y DU), nid ydym yn credu ei bod yn amhosibl datrys y mater hwn a bydd y Biliau gyda'i gilydd yn helpu i hyrwyddo safonau cyflawni mwy diogel i deithwyr.

**Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

11. Mae'r LCM atodol hwn yn ymwneud â darpariaethau yn y Bil fel y'i diwygiwyd. Dylid darllen y darpariaethau a restrir yn yr LCM hwn ochr yn ochr â'r LCMs blaenorol a osodwyd ar 11 Mawrth a 23 Mai 2025.

12. Er bod gwahaniaeth wedi bod yn ein dadansoddiad cymhwysedd ninnau a dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â chymalau 33 i 36, rydym wedi gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i ddatblygu atebion adeiladol sy'n gyson â chyflawni diwygio bysiau yn effeithiol ledled Cymru a Lloegr. Bydd y newidiadau a gyflwynir gan y gwelliannau yn sicrhau cydnawsedd wrth ddarparu gwasanaethau bysiau trawsffiniol a byddant yn helpu i hyrwyddo safonau cyflawni mwy diogel i deithwyr.

13. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi gwrthod ein cais i dynnu Cymru allan o gwmpas cymalau 35 a 36 sy'n ymwneud â hyfforddiant anabledd i yrwyr.

Er hynny, rydym yn hyderus na fydd hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflawni diwygio bysiau i bobl Cymru. Mae'n bwysig nodi nad yw'n ein hatal rhag sicrhau bod staff bysiau rheng flaen wedi'u hyfforddi'n effeithiol ac yn briodol i ddarparu gwasanaethau i bobl anabl.

14. Mae fy swyddogion yn parhau i drafod â chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth ynghylch effaith bosibl y darpariaethau sy'n dal yn gymwys i Gymru ar gyflawni'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn y dyfodol, sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd.

15. Yn y cyfamser, rwyf yn gosod yr LCM atodol hwn mewn perthynas â'r darpariaethau hynny er mwyn cydymffurfio â RhS29.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

16. Yn fy marn i, mae angen LCM atodol mewn perthynas â gwelliannau a wnaed i gymalau 7, 12(3)(a), 22(6)(b)(i), 24(4) a (5), 33, 34(2), 36(9) i (11), a'r Atodlen, fel y nodir isod.

- **Cymal 7** – Rheoleiddio gwasanaethau a ddarperir o dan hawlenni gwasanaeth - mae gwelliannau 4 a 5 Llywodraeth y DU yn newid y diffiniad o wasanaeth trawsffiniol (“cross-boundary service) mewn perthynas â chynlluniau masnachfreinio i gynnwys gwasanaeth sydd ag un neu ragor o fannau aros y tu allan i'r ardal y mae'r cynllun yn ymwneud â hi (yn hytrach na chyfyngu'r diffiniad i wasanaeth sy'n dechrau a/neu'n gorffen y tu allan i'r ardal y mae'r cynllun yn ymwneud â hi).

  Mae'r gwelliant hwn yn ehangu'r diffiniad o wasanaethau trawsffiniol fel na chaniateir rhoi hawlen i wasanaeth sy'n dod i mewn i Gymru ond os yw'r awdurdod yn fodlon y bydd manteision y gwasanaeth arfaethedig ar gyfer yr ardal y mae'r gwasanaeth yn dod i mewn iddi yn drech nag unrhyw effeithiau andwyol.

  Mae'r newid hwn i'w groesawu gan y bydd yn helpu i ddarparu ar gyfer yr holl wasanaethau trawsffiniol a allai gael eu sicrhau o dan Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

- **Cymal 12(3)(a)** - Gwelliannau amrywiol i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 - mae gwelliant NC4 gan Lywodraeth y DU wedi'i fewnosod yn y Bil fel cymal 12. Mae cymal 12(3)(a) yn mewnosod gofyniad i awdurdodau masnachfreinio ymgynghori â Gweinidogion Cymru os byddai cynllun masnachfreinio arfaethedig yn effeithio ar unrhyw ran o Gymru.
- **Cymal 22(6)(b)(i)** – Cwmnïau bysiau llywodraeth leol - mae cymal 22(6)(b)(i) yn mewnosod adran 73(5)(c) yn Neddf Trafnidiaeth 1985 ac yn darparu sicrwydd bod cwmnïau bysiau a sefydlwyd o dan adran 67 o Ddeddf 1985 yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau nad oes gan eu hawdurdod rheoli unrhyw bŵer i gymryd rhan ynddynt. Mae

gwelliant 17 Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar gymhwyso adran 73(5)(c) newydd o Ddeddf 1985 i gwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus yn Lloegr.

- **Cymal 24(4) a (5)** – Gwybodaeth am gofrestru gwasanaethau lleol – mae cymal 24(4) yn galluogi'r Comisiynwyr Traffig i rannu'r wybodaeth gofrestru bresennol o dan adrannau 6 a 6I o Ddeddf 1985 â'r Ysgrifennydd Gwladol. Fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, effaith y ddarpariaeth hon oedd galluogi gwybodaeth o'r fath am wasanaethau bysiau yng Nghymru i gael ei rhannu â'r Ysgrifennydd Gwladol. Er na fyddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau yng Nghymru, nid oedd yn fwriad gan yr Adran Drafnidiaeth gynnwys Cymru o fewn cwmpas cymal 24(4). Mae gwelliannau Llywodraeth y DU 18 (sy'n diwygio cymal 24(4)) a 19 (sy'n mewnosod cymal 24(5)) yn cyfyngu cymal 24(4) fel na ellir trosglwyddo gwybodaeth a ddaw i law comisiynydd traffig o dan adrannau 6 neu 6I o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 cyn i gymal 24 ddod i rym i'r Ysgrifennydd Gwladol dim ond os yw'r wybodaeth yn gysylltiedig â gwasanaethau lleol sydd ag un neu ragor o fannau stopio yn Lloegr; ond ni all yr wybodaeth ymwneud â rhan o'r gwasanaeth a ddarperir y tu allan i Loegr.

- **Cymal 33** - Dyletswydd ddiogelu: gyrwyr gwasanaethau ysgol – mae cymal 33 yn mewnosod adran 29A newydd yn Neddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr wirio tystysgrif cofnod troseddol fanwl pob gyrrwr gwasanaethau ysgol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r unigolyn wedi'i wahardd rhag ymgymryd â gweithgarwch rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant, neu wybodaeth ddiweddar mewn perthynas â'r dystysgrif cofnod troseddol fanwl honno, bob tair blynedd cyn caniatáu i yrwyr o'r fath yrru cerbyd gwasanaeth cyhoeddus ar wasanaeth ysgol caeedig (h.y. gwasanaethau nad ydynt yn agored i'r cyhoedd).

  Mae gwelliant 76 Llywodraeth y DU yn mewnosod adran 29B newydd yn Neddf 1981 sy'n darparu i'r ddyletswydd i wirio tystysgrifau cofnodion troseddol gyrwyr gwasanaethau bysiau ysgol sydd â mannau stopio yng Nghymru beidio â bod yn gymwys nes iddynt gael eu sbarduno gan reoliadau ac yn eithrio'r ddyletswydd honno'n llwyr ar gyfer gwasanaethau y mae Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru neu gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru yn gyfrifol amdanynt.

  Gan fy mod o'r farn y gall y ddeddfwriaeth bresennol a'r Ddarpariaeth Statudol a'r Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr, o'u darllen gyda'i gilydd, gyflawni canlyniad tebyg i'r ddyletswydd adran 29A newydd, croesewir y gwelliant hwn gan ei fod yn cymryd y mwyafrif o wasanaethau bysiau sy'n cludo plant ysgol yng Nghymru allan o rychwant y cymal.

- **Cymal 34(2)** – Hyfforddiant am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) – mae cymal 34(2) yn mewnosod adran 144F newydd yn Neddf Trafnidiaeth 2000. Mae'r cymal hwnnw yn ei gwneud

yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau gweithredwr PSV sicrhau bod eu gyrwyr a phersonau eraill sy'n delio'n uniongyrchol â materion teithwyr ar ran y gweithredwr, yn cwblhau hyfforddiant o leiaf bob pum mlynedd a fyddai'n eu helpu i adnabod a lle bo'n bosibl atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unrhyw droseddau a fyddai'n achosi i ddioddefwr posibl ofni am ei ddiogelwch personol ac i ymateb yn briodol i'r ymddygiad a'r troseddau hynny.

Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr PSV (cerbydau gwasanaeth cyhoeddus) gadw cofnodion, cyhoeddi gwybodaeth a rhoi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hyfforddi hwn. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyhoeddi canllawiau ynghylch cydymffurfio â'r gofyniad hyfforddi hwn.

Mae cymal 34(3) yn diwygio Deddf Trafnidiaeth 2000 i roi pwerau gorfodi i gomisiynwyr traffig yn erbyn gweithredwyr sy'n torri'r gofyniad hyfforddi hwn.

Mae gwelliant 77 Llywodraeth y DU yn darparu na fydd y gofyniad hyfforddi yn adran 144F newydd o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn gymwys i wasanaethau sy'n stopio mewn mannau yng Nghymru nes i'r gofyniad gael ei sbarduno gan reoliadau ac mae'n eithrio'r gofyniad hwnnw'n llwyr yn achos gwasanaethau y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt neu a ddarperir yng Nghymru o dan hawlen wasanaeth a roddir gan Weinidogion Cymru.

Croesewir y gwelliant hwn gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru, fel y bo'n briodol, i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan y darpariaethau a nodir ym Mil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) fel rhan o'r pecyn ehangach o hyfforddiant i yrwyr a staff bysiau rheng flaen eraill.

- **Cymal 36(9) i (11)** – Hyfforddiant am anabledd - mae cymal 36(9) yn mewnosod hefyd reoliad 10A newydd yn Rheoliadau Hawliau Teithwyr mewn Bysiau a Choetsys (Eithriadau a Gorfodi) 2013 sy'n rhoi pwerau gorfodi i'r comisiynwyr traffig yn erbyn y rhai sy'n torri'r gofynion hyfforddi amrywiol am anabledd.

  Mae gwelliannau 20 a 21 Llywodraeth y DU yn mewnosod darpariaethau newydd (cymal 36(9) a (10)) i sicrhau bod cyfeiriadau yn Rheoliadau Hawliau Teithwyr mewn Bysiau a Choetsys (Eithriadau a Gorfodi) 2013 at yr awdurdod gorfodi yn cwmpasu comisiynwyr traffig sy'n gyfrifol am gymryd camau gorfodi o dan reoliad 10A.

  Mae gwelliant 22 Llywodraeth y DU yn diwygio cymal 36(11) i sicrhau bod y ddyletswydd a osodir ar y Comisiynydd Traffig gan reoliad newydd 10A o Reoliadau Hawliau Teithwyr mewn Cludiant Bysiau a Choetsys (Eithriadau a Gorfodi) 2013 yn ymwneud ag arfer unrhyw bwerau sydd

ar gael iddynt o dan Reoliadau 2013 (yn hytrach na'r pwerau o dan reoliad 10A yn unig).

- **Yr Atodlen -** Gweithdrefnau ar gyfer amrywio cynllun masnachfreinio – mae'r Atodlen yn mewnosod Atodlen 9A newydd yn Neddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas ag amrywio cynlluniau masnachfreinio yn Lloegr.
  - Mae gwelliant 11 Llywodraeth y DU yn mewnosod **paragraff 5(4)(f)** newydd yn yr Atodlen 9A newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i awdurdod masnachfreinio yn Lloegr amrywio (drwy ychwanegu at ardal y cynllun) cynllun masnachfreinio, lle y byddai'r amrywiad yn effeithio ar unrhyw ran o Gymru.
  - Mae gwelliant 13 Llywodraeth y DU yn mewnosod **paragraff 9(3)(f)** newydd yn yr Atodlen 9A newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i awdurdod masnachfreinio yn Lloegr amrywio (drwy leihau ardal y cynllun) cynllun masnachfreinio, lle y byddai'r amrywiad yn effeithio ar unrhyw ran o Gymru.
  - Mae gwelliant 15 Llywodraeth y DU yn mewnosod **paragraff 13(1)(a)(i)** newydd yn Atodlen 9A newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i awdurdod masnachfreinio yn Lloegr wneud amrywiadau penodedig eraill i gynllun masnachfreinio, lle y byddai'r amrywiad yn effeithio ar unrhyw ran o Gymru.

17. Rwyf o'r farn bod y cymalau hyn fel y'u diwygiwyd yn sbarduno'r broses cydsynio deddfwriaethol a nodir yn Rheol Sefydlog 29 am eu bod yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (sef darparu gwasanaeth bysiau lleol).

### Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

18. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau hyn, ac eithrio cymalau 22(6)(b)(i) a 24(4), yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac felly nad yw'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol.

19. O ran cymalau 22(6)(b)(i) a 24(4), mae Llywodraeth y DU yn cytuno eu bod o fewn cymhwysedd y Senedd. Er hynny, mae'r ddwy ddarpariaeth hyn bellach wedi'u diwygio, fel y nodwyd uchod, gan dynnu Cymru allan o'r cwmpas.

### Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil

20. Mae gwelliannau i gymal 22(6)(b)(i) a chymal 24(4) a (5) wedi'u gwneud oherwydd mai dim ond i Loegr y bwriadwyd i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys. Rwyf yn fodlon bod y gwelliannau yn sicrhau nad yw'r darpariaethau hynny'n gymwys bellach mewn perthynas â Chymru.

21. Bydd y gwelliant i gymal 33 yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru barhau i weithredu er budd Cymru mewn perthynas â gwasanaethau ysgolion a bysiau lleol, gyda'r rhain yn destun craffu gan y Senedd fel y bo'n briodol.

22. Bydd y gwelliant i gymal 34 yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy'r darpariaethau ym Mil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

23. Bydd y gwelliannau i gymal 7, 12(3)(a) a'r Atodlen i Fil y DU, ochr yn ochr â'n Bil ninnau, yn cefnogi darparu gwasanaethau trawsffiniol yn effeithiol.

## Goblygiadau ariannol

24. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru, er ei bod yn debygol y bydd rhai goblygiadau ariannol i weithredwyr yng Nghymru oherwydd y gofynion i ddarparu a gweinyddu hyfforddiant i yrwyr a staff eraill. Byddai'n rhaid ystyried goblygiadau hyn yn llawn wrth gyflwyno Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

## Casgliad

25. Mae'n ddrwg gennyf am yr oedi cyn gosod yr LCMs yn ystod hynt Bil y DU ac unrhyw anawsterau y mae hyn wedi'u hachosi mewn perthynas â gallu'r Senedd i graffu ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Mae hyn i'w briodoli i'r llu o heriau sy'n deillio o gael dau Fil yn symud drwy eu priod seneddau ar yr un pryd, yn ogystal â'r flaenoriaeth a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni i oresgyn y dadansoddiad cymhwysedd mewn ffordd sy'n sicrhau bod gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n croesi'r ffin, yn cael eu darparu er budd gorau teithwyr.

26. Rwyf o'r farn y bydd y gwelliannau a restrir uchod yn arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau trawsffiniol ac at allu Llywodraeth Cymru i weithio'n effeithiol gyda'i swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ar drafnidiaeth gyhoeddus.

27. Byddaf yn parhau i fonitro datblygiadau'r Bil ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol.

**Ken Skates AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**15 Gorffennaf 2025**